

# Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cyngor tref a chymuned a chynghor sir neu gyngor bwrdeistref sirol?

Mae gan y cyngorau sir neu'r cyngorau bwrdeistref sirol (a adnabyddir hefyd fel yr awdurdodau lleol) gyfrifoldeb cyfreithiol i ddarparu gwasanaethau fel addysg, iechyd yr amgylchedd, gwasanaethau cymdeithasol a chynllunio tref a gwlad ar gyfer y sir gyfan.

Mae'r cyngorau tref a chymuned yn cynrychioli cymunedau unigol o fewn y sir. Mae ganddynt bwerau cyfreithiol i gyflenwi rhai gwasanaethau, ond mae ganddynt lai o gyfrifoldebau. Mae'r cyngorau tref a chymuned yn gweithio'n agos gyda chynghorau sir neu gyngorau bwrdeistref sirol yr ardal ac yn cynrychioli buddiannau eu cymunedau.

Mae'n rhaid i'r cyngorau sir neu'r cyngorau bwrdeistref sirol a'r cyngorau tref a chymuned gydweithio mewn partneriaeth i sicrhau'r gwasanaethau a'r canlyniadau gorau ar gyfer y bobl sy'n byw yn yr ardal. Efallai y bydd hyn yn golygu bod cyngorau sir neu gyngorau bwrdeistref sirol yn dyrannu arian i gyngorau tref a chymuned er mwyn iddynt fedru darparu gwasanaeth ar lefel leol. Gall cytundebau siarter fod yn sail dda iawn ar gyfer y berthynas honno rhwng y cyngorau sir neu'r cyngorau bwrdeistref sirol a'r cyngorau tref a chymuned.

## Pa bwerau sydd gan y cyngorau tref a chymuned?

Mae gan y cyngorau tref a chymuned y gallu i ddarparu nifer o wasanaethau, ac mae hynny'n dibynnu ar faint y gymuned y maen nhw'n ei chynrychioli, a'u cyllidebau. Dyma enghreifftiau o wasanaethau sy'n cael eu darparu gan gyngorau tref a chymuned:

- arwyddion gwybodaeth i'r cyhoedd, a hysbysfyrddau
- meinciau cyhoeddus a llochesi bysiau
- cofgolofnau rhyfel
- canolfannau cymunedol a chyfleusterau hamdden dan do.

Mae'r cyngorau tref a chymuned yn gweithio'n agos gyda'r cyngorau sir a'r cyngorau bwrdeistref sirol yn yr ardal ac yn cynrychioli buddiannau eu cymunedau. Hefyd, maen nhw'n gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill (gan gynnwys

cynghorau tref a chymuned eraill yn yr ardal) i ddarparu gwasanaethau. Drwy gynnig cefnogaeth, gan gynnwys cyllid, cyfarpar neu adeiladau, gall y cynghorau tref a chymuned helpu cyrff eraill hefyd i ddarparu gwasanaethau fel gofal plant, gwasanaethau i'r henoed, mentrau amgylcheddol a gweithgareddau'n ymwneud â'r celfyddydau a chwaraeon.

Mae Canllaw y Cynghorydd Da 2017 yn rhoi rhagor o fanylion am y pwerau sydd ar gael i'r cynghorau tref a chymuned. Gallwch ddod o hyd i'r ddogfen yn y Dolenni Perthnasol ar y dde.

## **Pwy all fod yn gynghorydd cymuned neu'n gynghorydd tref?**

I fod yn gynghorydd cymuned neu'n gynghorydd tref, mae angen i chi fod dros 18 oed ac yn ddinesydd Prydeinig neu'n ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad neu'r Undeb Ewropeaidd.

Gellir ennill seddi ar y cyngor cymuned neu'r cyngor tref un ai drwy etholiad neu drwy gyfethol aelodau. Caiff pobl sydd ar y rhestr wirfoddoli eu cyfethol pan nad oes digon o ymgeiswyr yn sefyll yn ystod etholiad neu os nad yw'r etholaeth wedi cynnal etholiad pan ddaw'r sedd yn wag.

Gall cynghorwyr cymuned a chynghorwyr tref gynrychioli plaid wleidyddol neu gallant sefyll fel aelod annibynnol.

## **Rydw i o dan 18 mlwydd oed – sut y gallaf gyfrannu?**

Mae dyletswydd ar gynghorau tref a chymuned i ystyried sylwadau pawb sy'n byw yn eu cymuned, gan gynnwys pobl ifanc. Mae deddfwriaeth, sef Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a.118-121, yn rhoi'r pŵer i'r cynghorau tref a chymuned benodi hyd at ddau gynrychiolydd ieuencid (oed 16-25) i gynrychioli buddiannau'r bobl ifanc sy'n byw, yn gweithio neu'n derbyn eu haddysg neu eu hyfforddiant yn yr ardal. Mae rhai cynghorau wedi sefydlu cyngor ieuencid neu bwyllgor o bobl ifanc er mwyn gwrandao ar farn y bobl ifanc hynny. Os nad oes gan eich cyngor gynrychiolwyr ieuencid neu gyngor neu bwyllgor ieuencid gallwch ysgrifennu at y cyngor hwnnw i ofyn iddo ystyried yr opsiynau hyn neu, a bwrw bod eich cyngor yn rhoi caniatâd, gallwch hyd yn oed godi'r mater mewn cyfarfod o'r cyngor.

Hefyd gallwch gysylltu â'ch cyngor cymuned neu'ch cyngor tref i roi'ch barn ar bwnc a chymryd rhan mewn ymgynghoriadau a gynhelir gan y cyngor.

## **Sut y gallaf leisio fy marn i'r cyngor cymuned neu'r cyngor tref?**

Mae dyletswydd ar gynghorau tref a chymuned i ystyried barn pawb sy'n byw yn eu cymuned. Dylent hefyd ofyn am farn yr etholwyr a'r rheini nad ydynt yn gallu pleidleisio, fel pobl ifanc.

I wneud hyn, efallai y bydd eich cyngor yn cynnal amrywiaeth o ymarferion ymgynghori ar hyd y flwyddyn. Yno, bydd modd i chi roi'ch barn ar fater penodol neu roi'ch barn yn gyffredinol ar y gymuned. Hefyd, gall eich cyngor gynnal cyfarfod o'r cyngor tref neu'r cyngor cymuned lle mae modd i'r etholwyr drafod gwaith y cyngor a'r hyn sy'n digwydd yn yr ardal. Gallai'r etholaeth gynnal cyfarfod o'r fath os y cânt gais gan 10% o'r etholwyr neu 50 ohonynt, p'un bynnag yw'r lleiaf.

Mae cyfarfodydd y cyngor, ei bwyllgorau a'i is-bwyllgorau yn agored i'r cyhoedd, ac eithrio pan fo materion sensitif iawn yn cael eu trafod. Mae Llywodraeth Cymru yn annog y cynghorau tref a chymuned i wahodd aelodau'r cyhoedd i gymryd rhan yn y cyfarfodydd. Mae rhai cynghorau yn pennu amser penodol yn eu cyfarfodydd fel bod aelodau'r cyhoedd yn gallu mynegi'u barn neu holi cwestiynau.

Gallwch ysgrifennu at eich cyngor cymuned neu'ch cyngor tref ar unrhyw adeg. Os oes cyfeiriad e-bost gan eich cyngor gallwch anfon e-bost. Os nad oes modd i chi ddod o hyd i'r manylion cyswllt ar gyfer eich cyngor cymuned neu'ch cyngor tref, gall eich cyngor sir neu'ch cyngor bwrdeistref sirol eich cynorthwyo.

Drwy wneud hyn, gallwch gael gwybodaeth fanylach, drwy gyfrwng cyhoeddiadau am y cynghorau tref a chymuned, a'u gwaith. Mae canllawiau ar gael i gynghorwyr cymuned a chynghorwyr tref, ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am ddeddfwriaeth ac ymgynghoriadau.

## **Ble alla i ddod o hyd i wybodaeth am ddeddfwriaeth Cymru?**

Gallwch ddod o hyd i gopïau o Ddeddfau, Biliau a Mesurau, yn ogystal ag is-ddeddfwriaeth, ar [wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#), ynghyd ag agendâu a thrawsgrifiadau o gyfarfodydd pwyllgor a'r cyfarfodydd lawn lle cafodd y ddeddfwriaeth ei thrafod.